# Ceffylau wedi eu disgyblu i neidio

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn cynnwys ceffylau wedi eu disgyblu i neidio.  Bydd hyn yn cynnwys neidio mewn ardal gaeëdig neu mewn man agored, dros glwydi, ac yn dilyn cyfarwyddiadau, sydd yn cynnwys gridiau a ffensys unigol hyd at 70cm (2 droedfedd 6 modfedd). Byddwch hefyd yn dilyn y llwybr cywir ac yn addasu eich cyflymder i gyd-fynd â’r math o naid e.e. trotian neu hanner carlamu.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. neidio ceffylau wedi eu disgyblu
4. mabwysiadu a chynnal y safle marchogaeth cywir
5. cynhesu'r ceffyl yn briodol, ar gyfer neidio
6. cynnal safle cytbwys, nad yw'n niweidiol i'r ceffyl, tra'n neidio dros glwydi
7. dilyn y llwybr cywir, yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. addasu cyflymder ac osgo'r ceffyl i gyd-fynd â'r lleoliad a'r math o naid
9. tawelu'r ceffyl yn briodol, ar ôl neidio
10. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. y rhesymau dros ddilyn y llwybr cywir a chyflwyno'r ceffyl i'r ffens yn gywir
4. sut i gynhesu ceffylau cyn neidio, a'u tawelu ar ôl hynny
5. y camau i'w cymryd os yw'r ceffyl yn gwrthod neidio neu'n rhedeg allan
6. egwyddorion rheoli ceffyl wrth neidio
7. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth neidio ceffylau
8. y camau i'w cymryd mewn tywydd a chyflwr arwyneb anffafriol
9. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Neidio dau geffyl wedi eu disgyblu mewn ardal caeëdig neu mewn ardal agored.

Cyflawni dau o'r neidiau canlynol:

- clwydi
- gridiau

Neidio o:

- drotian
- hanner carlamu

Ceffylau wedi eu disgyblu i neidio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq218 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; marchogaeth; neidio; clwydi; trotian; hanner carlamu |